



Adroddiad Arolygu ar gyfer

Bron y Nant

**Bron y Nant
Dinerth Road
Bae Colwyn
LL28 4YL**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

22/03/2024

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atavnhwrchu ein deunydd yn fanwl gwir a nheidio â'i ddefnyddio mewn cwl-destun

Bron y Nant

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cartref Gofal Gofal Heb Nyrsio i Oedolion
Darparwr Cofrestredig	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Lleoedd cofrestredig	8
Iaith y gwasanaeth	Saesneg
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	Dyma'r tro cyntaf i'r gwasanaeth gael ei arolygu o dan y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol.
Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru?	Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.

Crynodeb

Mae seibiannau byr y bobl yng nghartref Bron y Nant yn gadarnhaol ac o fudd iddynt. Rhoddir ystyriaeth ofalus i gydnawsedd ac mae'r gwaith cynllunio yn anelu at sicrhau bod y bobl sy'n aros yn cael y profiad gorau. Ceir enghreifftiau hefyd o'r bobl yn gwneud ffrindiau. Mae'r gofal a'r cymorth wedi'u teilwra at bob unigolyn ac mae pob unigolyn yn gwneud ei benderfyniadau a'i ddewisiadau ei hun o ran yr hyn y mae am ei wneud yn ystod ei arhosiad. Dywedodd gweithiwr proffesiynol wrthym *"I have been really impressed with how person centred the service has been"*.

Mae tîm o staff cryf sy'n cydweithio'n dda, yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi ar y cyfan, ac yn cael cyfleoedd i ddysgu a datblygu ymhellach yn eu rolau. Mae sylwadau'r staff yn cynnwys *"I enjoy my job role and the support I give"*.

Mae systemau a phrosesau ar waith i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei oruchwylio'n dda. Mae rheolwr newydd wedi cael ei benodi'n ddiweddar ac mae'n gweithio'n agos gyda'r unigolyn cyfrifol i wella'r gwasanaeth ymhellach.

Mae Bron y Nant wedi'i adeiladu'n bwrpasol at y diben, gan ddarparu pum fflat hunangynhwysol, y mae gan bedwar ohonynt ardd breifat. Mae iard hefyd. Mae'r bobl yn gallu treulio amser yn eu fflatiau neu os byddai'n well ganddynt, gallant gymdeithasu â'r bobl a'r staff yn yr ardaloedd cymunedol.

Llesiant

Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Mae'r broses asesu yn drylwyr, ac yn casglu cymaint o wybodaeth â phosibl am ddymuniadau a dewisiadau'r bobl am yr hyn yr hoffent ei wneud yn ystod eu harhosiad. Gallant barhau â'u harferion arferol, defnyddio gwasanaethau eraill, dilyn eu diddordebau a rhoi cynnig ar bethau newydd. Gall y bobl weithio tuag at gyflawni eu nodau gyda chymorth gan y staff pan fyddant am gael cymorth, ac maent yn llwyddo i'w cyflawni. Mae adborth gan weithwyr proffesiynol am effeithiolrwydd y gwasanaeth yn gyson dda. Gwnaethant nodi rhai enghreifftiau pwerus lle roedd pobl wedi dysgu sgiliau newydd, wedi dod o hyd i gyfleoedd swyddi, wedi gwella eu hyder ac wedi meithrin eu hunanhyder. Dywedodd y bobl eu bod yn cael rhyddid pan fyddent yn aros yng nghartref Bron y Nant.

Caiff anghenion corfforol, anghenion iechyd meddwl ac anghenion llesiant emosiynol y bobl eu diwallu. Rhoddir ystyriaeth ofalus i gydnawsedd wrth drefnu i bobl ddod i aros yn y gwasanaeth. Mae hyn yn ystyried iechyd a symuded y bobl er mwyn gwneud yn siŵr y gellir eu rhoi yn y fflat cywir gyda lefelau priodol o gymorth gan y staff ac unrhyw gyfarpar arbenigol sydd ei angen. Cynigiodd y gweithwyr proffesiynol sawl enghraifft yn dangos sut mae'r gwasanaeth wedi cefnogi'r bobl yn llwyddiannus pan fydd anghenion yn codi, gan gynnwys amgylchiadau nas rhagwelwyd ac argyfyngau. Caiff cydberthnasau cadarnhaol eu meithrin rhwng y staff, y bobl a'u teuluoedd neu ofalwyr. Siaradodd un aelod o'r staff am y broses asesu. Maent yn dod i adnabod teuluoedd y bobl, gan nodi *"Parents trust me"*, ac yn parhau fel pwynt cyswllt drwy gydol y broses o'r adeg y caiff y bobl eu hasesu i'r adeg y byddant yn cyrraedd y gwasanaeth ac yn gadael y gwasanaeth. Maent hefyd yn gwybod pa bobl sy'n cyd-dynnu'n dda ac yn trefnu iddynt ddod eto ar yr un pryd. Mae sylwadau'r bobl yn cynnwys sylwadau sy'n nodi bod y gofal a'r cymorth y maent yn eu cael yn *"excellent"*, *"It's lovely"*, *"Nice"* ac *"everyone's helpful"*. Dywedodd y staff wrthym *"[people] have been very happy with their support"*.

Mae'r bobl yn ddiogel rhag niwed. Mae polisi diogelu ar waith ac mae'r staff yn cael hyfforddiant. Mae gwybodaeth am sut i godi pryderon ar gael yn hawdd i'r bobl, ymwelwyr a'r staff. Ar ôl pob arhosiad, gofynnir i'r bobl am adborth ysgrifenedig sy'n darparu gwybodaeth werthfawr am eu profiadau, gan gynnwys a oeddent yn teimlo'n ddiogel. Mae sylwadau'r staff yn cynnwys *"There is a happy and safe atmosphere"*.

Mae'r bobl yn aros mewn llety addas. Mae Bron y Nant wedi'i adeiladu'n bwrpasol at y diben ac yn cynnwys pum fflat hunangynhwysol modern i'r bobl eu defnyddio. Cânt eu hannog i ddod â'u heiddo eu hunain er mwyn gwneud eu llety'n fwy cartrefol yn ystod eu harhosiad.

Gofal a Chymorth

Mae gan y bobl gynlluniau personol cyfredol. Mae'r cynlluniau yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn cynnwys gwybodaeth bwysig a manwl am bob unigolyn a'r cymorth sydd ei angen arno pan fydd yn aros. Caiff y cynlluniau eu hadolygu'n barhaus cyn i'r bobl ddod i mewn i'r gwasanaeth a phan fyddant yn gadael y gwasanaeth er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n berthnasol ac yn cael eu diweddarau os bydd unrhyw newidiadau.

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth o ansawdd da gan wasanaeth sy'n ymgynghori â nhw ac yn ystyried eu dymuniadau personol, ac unrhyw anghenion arbenigol a risgiau. Cynhelir asesiadau cychwynnol gyda'r bobl a'u teuluoedd neu ofalwyr i sicrhau bod y cynlluniau yn gynhwysfawr. Gall y bobl ymweld â'r cartref cyn dod i aros, gan ddilyn trefniadau sy'n addas iddynt. Dywedodd gweithwyr proffesiynol, *"Transitions have been planned and phased; feedback has been really good with requests for ongoing regular respite"*. Gwnaethant hefyd ddweud wrthym *"They are working well with families and doing in depth transitioning plans such as going to their homes to do observations etc to make sure everyone is confident and familiar with that person's care and support needs before respite starts"*. Dywedodd gweithwyr proffesiynol bod y staff yn *"wonderful"* a'u bod yn cymryd amser i ddod i adnabod y bobl, yn ceisio deall y ffordd orau o'u cefnogi a'u bod *"just very kind and caring"*.

Mae'r cynlluniau personol yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am hanes y bobl, eu cydberthnasau, dulliau cyfathrebu, eu hoff bethau a'u cas bethau a pha gymorth yr hoffent ei gael gan y staff pan fyddant yn aros. Mae'r cofnodion dyddiol yn adlewyrchu'r hyn y mae'r bobl wedi bod yn ei wneud. Gwelsom enghreifftiau a oedd yn cynnwys mynd allan i lefydd o ddiddordeb, siopa, gweithgareddau, cymdeithasu, paratoi prydau a gwneud cynnydd o ran gweithio tuag at eu nodau. Mae dulliau a strategaethau ar waith i gadw'r bobl yn ddiogel pan fyddant yn aros. Dywedodd y staff y byddent yn argymhell defnyddio'r gwasanaeth am y rhesymau canlynol - *"All the staff are kind and caring and listen to the people that they care for and value them as individuals"* a *"Staff are very empathetic and help everyone in any way possible"*. Gofynnir i'r bobl roi adborth ar ôl iddynt aros er mwyn dysgu o'r adborth hwn i wella'r gwasanaeth ymhellach.

Mae'r gwasanaeth yn hybu arferion hylan ac yn rheoli'r risg o haint. Mae cyfarpar diogelu personol (PPE) ar gael i'r staff. Mae'r staff yn cael hyfforddiant ar reoli heintiau ac mae polisi ar waith iddynt ei ddilyn. Mae pob rhan o'r gwasanaeth yn lân ac yn daclus.

Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn aros mewn llety sydd wedi'i adeiladu a'i ddylunio'n bwrpasol at y diben ac sy'n addas i ddiwallu amrywiaeth eang o anghenion. Mae pum fflat ar gael a gall pobl sy'n annibynnol aros yn y fflatiau hynny, yn ogystal â phobl ag anghenion mwy cymhleth neu anghenion symudedd. Mae sylwadau gweithiwr proffesiynol yn cynnwys, *"The rooms are very well designed and accommodating for a range of clients with individual needs"*. Mae'r fflatiau yn olau, yn fawr, yn fodern, ac wedi'u dodrefnu'n dda a gall y bobl ddod â'u heitemau a'u heiddo personol eu hunain gyda nhw i'w gwneud yn fwy cartrefol. Mae gan ddau fflat ail ystafell wely felly gall y bobl ddewis ym mha ystafell yr hoffent aros ynddi a gall aelodau o'r staff aros yno hefyd os bydd angen iddynt wneud hynny. Mae addasiadau wedi cael eu gwneud, megis arwynebeddau gwaith y gellir newid eu uchder yn y gegin ac mae cyfarpar symudedd ar gael i helpu'r bobl ac i hybu eu hannibyniaeth. Mae nodweddion ychwanegol yn cynnwys gwres o dan y llawr, goleuadau synhwyrdd yn y cynteddau ac mae gan bob fflat ei gloch drws ei hun i'r staff ac ymwelwyr. Gwneir defnydd da o lolfa gymunedol a chegin, sy'n cynnig lle i'r bobl a'r staff dreulio amser gyda'i gilydd yn ymlacio neu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau pwrpasol. Dywedodd gweithwyr proffesiynol *"The fact that people have their own apartments but can also access a communal area seems to have been welcomed"* a *"The environment is very nice"*. Mae gan bedwar fflat eu gardd breifat eu hunain i'r bobl ei defnyddio. Ceir iard â phlanhigion synhwyrdd hefyd.

Mae darparwr y gwasanaeth yn nodi ac yn lliniaru risgiau i iechyd a diogelwch. Cynhelir archwiliadau i nodi materion ac unrhyw gamau gweithredu sydd eu hangen. Mae systemau ar waith i sicrhau y caiff gwiriadau iechyd a diogelwch gan gynnwys gwiriadau tân eu cynnal, ond caiff gwybodaeth ei chadw mewn gwahanol fannau. Gwnaethom drafod yr angen i'r gwasanaeth gofnodi ymarferion tân yn ffurfiol, gan mai gwasanaeth arall yn yr un adeilad sy'n gyfrifol am wneud hynny ar hyn o bryd. Caiff cynlluniau personol ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng eu cwblhau ar gyfer pob unigolyn sy'n aros yn y gwasanaeth ond mae angen nodi dyddiad arnynt a'u hadolygu. Dywedodd yr Unigolyn Cyfrifol wrthym ei fod eisoes yn mynd i'r afael â'r materion ac y bydd y swyddog iechyd a diogelwch hefyd yn mynd drwy'r holl wybodaeth i wneud gwelliannau. Caiff gwaith cynnal a chadw ei gwblhau yn ôl yr angen, ac mae'r gwasanaeth mewn cyflwr da. Mae trefniadau diogelwch ar waith gan y cartref ar gyfer yr ardaloedd y tu allan i'r adeilad. Mae'r bobl a'u teuluoedd yn cael eu hysbysu am hyn a gofynnir am ganiatâd ganddynt yn hyn o beth.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Caiff y bobl eu cefnogi gan dîm o staff medrus ac ymrwymedig sy'n llawn cymhelliant. Caiff gwiriadau recriwtio eu cwblhau a gwnaethom drafod y gofyniad i'r wybodaeth fod ar gael i'w harchwilio yn ystod yr arolygiad â'r Unigolyn Cyfrifol. Gwnaethom drafod arferion recriwtio mwy cadarn er mwyn cryfhau'r broses hon ymhellach. Bydd y staff yn cwblhau proses sefydlu arall gyda'r rheolwr newydd er mwyn sicrhau yr ymdriniwyd â phob maes disgwylidig. Caiff hyfforddiant ei ddarparu i'r staff a gwnaed trefniadau i gynnal mwy o hyfforddiant. Mae sylwadau'r staff am hyfforddiant yn cynnwys *"staff get quite a lot"* ac yn dangos eu bod o'r farn eu bod yn cael cyfleoedd dysgu a datblygu *"good"* neu *"excellent"*. Ceir rhywfaint o adborth cymysg o ran teimladau'r staff ynghylch sut maent yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi, gyda'r ymatebion i'r arolwg yn amrywio o ymatebion yn nodi bod angen gwella'r broses, i ymatebion yn nodi bod y broses yn dda ac yn ardechog. Dywedodd y staff wrthym *"The support team are really kind and caring and work well as a team"*, *"Support staff work great together and individually"* gan sôn hefyd fod y cyfathrebu rhwng y staff yn dda. Mae'r staff yn cael eu goruchwyllo ac maent yn mynychu cyfarfodydd tîm lle gallant drafod a chodi materion. Dywedodd y staff wrthym *"It's a good place to work and rewarding"*, *"There is good camaraderie between all the staff and it is rewarding"*, *"Staff are great and helpful with anyone new who starts"* a *"New management has given the place a sense of direction"*. Mae gweithwyr proffesiynol yn canmol y staff yn fawr, gan ddweud eu bod yn *"excellent, very friendly and professional"*, *"Communication and involvement with the staff is good"* a *"The staff team are committed to delivering an excellent resource"*.

Mae trefniadau llywodraethu ar waith i sicrhau gofal a chymorth o ansawdd da i'r bobl sy'n aros yn y gwasanaeth. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â Bron y Nant yn aml, ac yn mynd ati bob tri mis i ystyried beth sy'n gweithio ac unrhyw welliannau sydd eu hangen. Mae rheolwr newydd wedi cael ei benodi ac mae'n cael ei gefnogi'n dda gan yr Unigolyn Cyfrifol. Dywedodd yr Unigolyn Cyfrifol a'r rheolwr wrthym eu bod eisoes wedi nodi rhai meysydd sydd angen eu gwella ac maent yn treulio amser gyda'i gilydd yn y gwasanaeth i fynd i'r afael â hyn ac i roi systemau newydd a ffyrdd newydd o wneud pethau ar waith. Dywedodd gweithwyr proffesiynol wrthym fod y gwasanaeth yn llwyddiannus ac yn werthfawr. Mae eu sylwadau yn cynnwys *"Having a service like this in the county is priceless, I feel very lucky to be able to tell people about the service and what we can provide"* a *"I am made up with the service Bron y Nant is able to offer to our client's"*.

Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
Newydd	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
Heb Gyflawni	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- [Arolwg adroddiadau arolygu](#)

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n [tudalen Arolygon adborth](#).

Dyddiad Cyhoeddi 16/05/2024